Urdd

**Teitl y Swydd:** **Rheolwr Digwyddiadau Chwaraeon Genedlaethol**

**Math o gontract:** **Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)**

**Graddfa:** **Gweithredol 7 - £36,426 - £41,169**

**Lleoliad:** **Caerdydd**

**Amdanom ni**

Mae'r Urdd yn fudiad sy'n parhau i dyfu ac arloesi, ac yn un o'r cyflogwyr mwyaf sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Fe sefydlwyd yn 1922, ac erbyn heddiw cyflogir dros 300 o staff, bron 55,000 o aelodau, 10,000 o wirfoddolwyr a throsiant o £10m. Byddwn yn dathlu ein pen-blwydd yn 100 yn 2022 gan weithio gydag ein haelodau a'n gwirfoddolwyr ynghyd ac amryw o bartneriaid sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, S4C, BBC, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Stonewall Cymru, Chwaraeon Cymru, Ysgolion a Cholegau Cymru.

**Y Swydd**

Rydym yn chwilio am berson hyderus, gweithgar a threfnus i chwarae rôl allweddol yn rhediad yr adran Gweithgareddau o fewn Chwaraeon yr Urdd.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Gary Lewis ar 029 22405335 neu gary@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 31/8/2021
Dyddiad Cyfweld – 8/09/21

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Rheolwr Digwyddiadau Cenedlaethol** | **Lleoliad:** | **Swyddfa'r Urdd Caerdydd** |
| **Adran:** | **Chwaraeon** | **Rheolaeth Llinell:** | **Swyddog Cynorthwyol Chwaraeon Cenedlaethol** |
| **Yn adrodd i :** | **Cyfarwyddwr Chwaraeon** | **Graddfa:** | **Gweithredol 7; £36,426 - £41,169** |

**Prif bwrpas y swydd:**

Gyfrifol am Reoli a threfnu holl brosiectau a chystadlaethau Cenedlaethol oddi tan bortffolio'r Adran Chwaraeon gan gynnwys yr Urban Games a Rygbi 7s Rhyngwladol.

Bod yn bwynt cyswllt yn unol â'r amserlen gwaith blynyddol gyda staff yr Adran Chwaraeon, Adran Gyfathrebu a Rhyngwladol, Adran TG ac Ariannol.

Cyfrifoldeb hefyd am feithrin a chreu partneriaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol er mwyn datblygu a chefnogi cystadlaethau a phrif ddigwyddiadau'r Adran Chwaraeon.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Creu strwythur cenedlaethol i gefnogi holl ddigwyddiadau Chwaraeon Cenedlaethol a phrosiectau'r Cant yn dilyn ail-strwythuro'r Mudiad.
2. Rheoli gwaith staff yr Adran yn ymwneud a chystadlaethau Rhanbarthol er mwyn sicrhau safon, cysondeb a datblygiadau (mewn cydweithrediad gyda Rheolwyr De a Gogledd)
3. Sicrhau a rheoli llywodraethiant a gweinyddiaeth ariannol gadarn i'r Cystadlaethau Cenedlaethol a Digwyddiadau'r Cant.
4. Rheoli a threfnu'r yr holl elfennau prosiectau'r Cant gan gynnwys yr Urban Games, Rygbi 7s Rhyngwladol ayyb
5. Cyfrifoldeb dros reoli'r gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer trefnu a chydlynu cystadlaethau a digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol.
6. Gweithio ar lefel strategol gyda chyrff Chwaraeon Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru i gyd drefnu digwyddiadau a chreu strwythurau strategol i dyfu'r cynigion cystadlu i ein haelodau.
7. Cyfrifoldeb dros ddenu cyllid trwy ddatblygu'r perthynas adeiladol gyda'r sectorau preifat
8. Cyfrifoldeb dros sefydlu strwythur gwerthuso effeithiol er mwyn gwella a datblygu gwasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol i'r dyfodol.
9. Gyfrifol am sefydlu, reoli a monitro targedau cystadlaethau cylch a rhanbarthau ardraws Cymru
10. Trefnu a mynychu cyfarfodydd ar lefel strategol gyda chyrff chwaraeon Cenedlaethol a rhanbarthol sydd ynghlwm a chystadlaethau'r a gweithgareddau'r Urdd.
11. Cydlynu cynllun marchnata Cenedlaethol ar gyfer ein digwyddiadau a gweithgareddau sydd yn glwm ar adran digwyddiadau

12. Cyfrifol am dendro allan gwaith i gwmnïau ar gyfer digwyddiadau chwaraeon Cenedlaethol a llogi canolfannau a lleoliadau ar gyfer cystadlaethau cenedlaethol

13. Gyfrifol am asesu a chreu pecyn Iechyd a Diogelwch cystadlaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol yr Adran

14. Sicrhau fod staff yn gweinyddu'r gwefan ynghyd a monitro safon cyfryngau cymdeithasol yr adran digwyddiadau yn Rhanbarthol a Cenedlaethol

15. Unrhyw ddyletswyddau rhesymol fel y bydd yn ofynnol gan Gyfarwyddwr yr adran.

**Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

**Hanfodol**

- Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd hon.
- Bydd angen profiad o drefnu digwyddiadau Cenedlaethol.
- Profiad o weithio ar brosiectau Chwaraeon cynhwysol
- Bydd angen meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Profiad o weithio i dargedau heriol.
- Y gallu i feddwl yn ddadansoddol a datrys problemau.
- Profiad o reoli cyllidebau a grantiau sylweddol
- Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon neu fynediad i drafnidiaeth bersonol er mwyn fod yn gwbl hyblyg i fodloni anghenion y swydd.

**Dymunol**

- Cymhwyster yn y maes chwaraeon a hamdden
- Cymhwyster NEBOSH
- Profiad o reoli staff
- Profiad o weithio gyda Cyrff Chwaraeon Cenedlaethol.
- Profiad o farchnata prosiectiau

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y

| |
|---|
| gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr. |
| **Adolygiad:** |

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (**ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Digwyddiadau a Gweithgareddau Chwaraeon Rhanbarthol |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Chwaraeon |
| **Cyflog:** | Ar raddfa Gweithredol 7 Strwythur Cyflog yr Urdd £36,426 (Pwynt 1) - £41,169 (Pwynt 4) Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu pwynt ychwanegol. |
| **Cytundeb:** | Parhaol |
| **Oriau gwaith:** | Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg. |
| **Lleoliad:** | Hyblyg – Un o brif swyddfeydd yr Urdd, |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Gwiriad GDG:** | Nid yw'n berthnasol i'r swydd. |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |